



Teitl: Title:	Polisi Gwasanaethau Cwnsela i Ddysgwyr Learner Counselling Services Policy
Fersiwn: Version	2
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Myfyrwyr

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	<i>Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr</i> <i>Head of Learner Services</i>		
Ymgynghoriad/ Consultation:	<i>Prif Gwnselydd</i> <i>Lead Counsellor</i>		
Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	8/3/2022	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	Os yn berthnasol / If applicable
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	Os yn berthnasol / If applicable
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	Os yn berthnasol / If applicable
	Corff Llywodraethu / Governing Body:	Os yn berthnasol / If applicable	
Dyddiad Adolygu: Review Date:	Tachwedd 2024 November 2024		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Efurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Tabl Cynnwys

Enw'r Strategaeth / Polisi

1. Diben	2
2. Egwyddorion/Safonau Allweddol	2
3. Cyfrifoldebau	2
4. Ymgynghori	3
5. Darpariaeth Gwasanaethau	3
6. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	4
7. Y Gymraeg	4
8. Cyfeiriadau	4

Strategaeth / Polisi

1. Diben

- 1.1 Mae Coleg Cambria yn cydnabod ei rôl fugeiliol o ran lles dysgwyr. Mae'r Gwasanaeth Cwnsela yn rhan o ystod o wasanaethau sydd ar gael i ddarparu cymorth er mwyn caniatáu myfyrwyr i astudio a chwblhau eu cwrs yn llwyddiannus.

2. Egwyddorion/Safonau Allweddol

- 2.1 Mae'r gwasanaeth Cwnsela yn cynnig sesiynau cwnsela diduedd am ddim, heb wahaniaethu, sydd ar gael i holl ddysgwyr presennol y coleg. Caiff cwnsela ei gynnig yn unol â pholisïau Coleg Cambria a'r Hysbysiad Preifatrwydd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018.

- 2.2 Caiff cyfrinachedd ei gynnal yn unol ag arferion cwnsela proffesiynol. Mewn amgylchiadau esgusodol, ni ellir sicrhau cyfrinachedd llawn; er enghraifft, efallai y bydd cyfrinachedd yn cael ei dorri yn yr amgylchiadau canlynol:

- *Lle bo bygythiad i fywyd dynol neu berygl corfforol (naill ai i'r dysgwr neu rywun arall)*
- *Lle bo pryder Diogelu (wedi'i adrodd yn uniongyrchol i Swyddogion Diogelu)*
- *Os oes bygythiad mawr i fuddiannau'r coleg.*
- *Os yw'r Gorchymyn Llys neu'r Gyfraith wedi gorchymyn i wneud hynny.*
- *Gellir trafod achosion yn hollol gyfrinachol o dan yr oruchwyliaeth ofynnol.*
- *Bydd gwybodaeth ynghylch presenoldeb yn cael ei monitro ar system EBS y coleg a gall staff awdurdodedig ei gweld.*
- *Cytunir na fydd unrhyw recordiadau o gwnsela dros y ffôn / rhithwir gan y naill barti na'r llall.*

- 2.3 Mae Gwasanaethau Cwnsela yn cael eu cynnwys yn yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y cwnselydd.

2.4 Yn ogystal â chael gwasanaethau cwnsela uniongyrchol yng Ngholeg Cambria, gall myfyrwyr geisio cymorth drwy ein Rhaglen Cynorthwyo Myfyrwyr sy'n cael ei hachredu gan BACP (Rhif ffôn 0800 028 3766) sy'n gyfres o wasanaethau llesiant. Caiff ei darparu trwy drydydd parti (Yswiriant Ensleigh), gan gynnwys cymorth trwy linell ffôn 24 awr y dydd i fyfyrwyr ar ystod o faterion sy'n ymwneud â bywyd cartref, iechyd a ffordd o fyw, pryderon ariannol a bywyd myfyrwyr. Yn ogystal â chymorth i ddatrys materion iechyd neu anawsterau ariannol.

3. **Cyfrifoldebau**

3.1 Bydd y Cwnselydd yn:

- Datblygu a chynnal rhwydwaith effeithiol o asiantaethau cyfeirio mewnol ac allanol a rhannu arferion da ar draws y coleg, i ddatblygu gwasanaethau cwnsela rhagorol yng Ngholeg Cambria.
- Bod yn Weithiwr Cwnsela proffesiynol cymwys a phrofiadol sy'n ymgymryd â DPP rheolaidd i gynnal arferion da.
- Cael goruchwyliaeth reolaidd gyda gweithiwr cwnsela proffesiynol cymwys a phrofiadol bob mis, ar gontract goruchwylio ffurfiol.
- Ymgymryd â datgeliad DBS a thanysgrifio i wasanaeth diweddarau DBS

Gweithio gyda staff ar draws y coleg:

- Anogwyr Cynnydd/Tiworiaid Personol
- Aelodau tîm y Gwasanaeth Cynhwysiant sy'n gyfrifol am gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu anghenion cymhleth a nodwyd.
- Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr a Thimau Gwasanaethau Myfyrwyr
- Swyddogion Diogelu
- Ymgynghorwyr Gyrfaedd

4. **Ymgynghori**

4.1 Ymgynghori gyda Chwnselwyr trwy Bennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr

5. **Darparu Gwasanaethau**

5.1 Bydd y Cwnselydd wedi'i leoli yn y Gwasanaethau Myfyrwyr ar bob un o'r pum safle a bydd ganddynt fynediad blaenoriaethol i ystafelloedd cyfarfod cynnil (gyda mynediad i'r anabl) ar gyfer sesiynau cwnsela.

5.2 Bydd sesiynau cwnsela yn cael eu cynnal bob wythnos yn ystod y tymor rhwng 8.30am a 4.30pm; bydd pob sesiwn yn para hyd at 1 awr a gellir ei hystyngwch mewn rhai amgylchiadau. Byddwn yn cynnig cwnsela dros y ffôn i ddysgwyr yn y gwaith nad ydynt yn gallu mynd i'r coleg oherwydd ymrwymadau eraill. Darperir cwnsela wyneb yn wyneb i ddysgwyr yn ystod y tymor. Os bydd y dysgwr yn dod i'r coleg yn ystod y gwyliau ac yn gofyn am gymorth therapiwtig, bydd y Gwasanaeth Cwnsela ar gael trwy'r Anogwyr Gwydnwch ar gyfer atgyfeiriadau. Bydd yr atgyfeiriad yn cael ei anfon drwy e-bost at berson a enwir a fydd wedyn yn sicrhau bod yr atgyfeiriad yn cael ei brosesu cyn gynted â phosibl ac yn cysylltu â'r dysgwr. Yna bydd y dysgwr yn cael cynnig gwasanaeth cwnsela dros y ffôn neu rithwir, o dan delerau cyfrinachedd arferol.

5.3 Bydd Anogwyr Cynnydd a Thiworiaid Personol yn cyfeirio at Anogwyr Gwydnwch i gael eu hasesu, a fydd wedyn, os oes angen, yn cyfeirio'r dysgwr ar gyfer Cwnsela. d) *Cadw Cofnodion*. Bydd unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu ar gael ac yn weledol i'r cwnselwyr yn

unig. Bydd y data yn cael ei storio'n ddiogel gan y cwnselydd ac ni fydd unrhyw unigolyn anawdurdodedig yn cael dod o hyd iddo. Bydd yr holl ddata yn cael ei gadw trwy gydol y flwyddyn academaidd lle bydd cleient yn cael y gwasanaeth, ond yna bydd yn cael ei ddinistrio ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Mewn amgylchiadau esgusodol, gall gwybodaeth gael ei chadw am gyfnod hirach lle bo ymchwiliad pellach o drosedd neu ddigwyddiad honedig ar waith.

- 5.4 Bydd cymorth ychwanegol rhesymol yn cael ei ddarparu yn ôl y gofyn, e.e. dehonglwr iaith Arwyddion Prydain i alluogi myfyrwyr sydd â nam ar y clyw i gael gwasanaethau cwnsela, neu gyfieithydd ar y pryd os yw'n well gan y cleient gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg neu iaith arall. Bydd y Gwasanaethau Cwnsela yn ymdrechu i leoli/cyfarwyddo cwnselydd sy'n siarad iaith ddewisol unrhyw ddysgwyr ar adeg unrhyw gais o'r fath.
- 5.5 Contract y Cleient - yn ystod y sesiynau cychwynnol, bydd y Cwnselydd yn egluro natur a graddau cwnsela, sut mae cofnodion yn cael eu cadw a'r amodau angenrheidiol os yw cyfrinachedd yn cael ei dorri. Gall y Cwnselydd a'r cleient ddod i gytundeb ar gynnig nifer penodol o sesiynau cwnsela ac yna bydd hyn yn cael ei adolygu'n gyfnodol wrth werthuso cynnydd. Mae rhai atgyfeiriadau yn rhai 'ar unwaith', ac efallai mai dim ond un neu ddwy sesiwn o ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar atebion sydd eu hangen mewn ymateb i angen 'mewn argyfwng'. Rhaid i gontractau fod ar lafar ac yn glir ond rhaid iddynt fod yn hyblyg i ddiwallu anghenion unigol.
- 5.6 Gwerthusiad - yn ystod y sesiynau cychwynnol ac yna'n gyfnodol ar ôl hynny, bydd y Cwnselydd yn rhoi copi caled o'r ffurflen werthuso i'r cleient. Caiff ffurflenni gwerthuso dysgwyr eu hanfon at Bennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr. Bydd gwerthusiadau yn gwarchod anhysbysrwydd.
- 5.7 Hyrwyddo gwasanaethau cwnsela - yn ogystal â chynnwys manylion gwasanaethau cwnsela yn y prosbectws, cyfeirir atynt mewn llawlyfrau myfyrwyr a staff, sesiynau ymsefydlu, pamffledi, poster, ar fewnrwydi staff a myfyrwyr, sianeli cyfryngau cymdeithasol a gan y Timau Gwasanaethau Myfyrwyr.
- 5.8 Absenoldeb Cwnselydd - pe bai Cwnselydd yn absennol am gyfnod canolig/hir o amser o'r coleg, bydd Pennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr yn trefnu i gwnselydd allanol ddarparu'r gwasanaethau cwnsela.
- 5.9 Cwynion - Dylai dysgwyr nad ydynt yn fodlon gydag unrhyw agwedd o'r Gwasanaeth Cwnsela drafod eu pryderon gyda'r Cwnselydd i ddechrau. Os ydynt yn credu nad yw eu cynw wedi'i ymdrin â hi'n foddhaol, gallant gysylltu â Phennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr. Os yw'r cleient yn dymuno gwneud cynw ffurfiol, dylid dilyn trefn gwyno'r coleg, a/neu gellir anfon y gwyn ymlaen at y Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP).

6. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- 6.1 Bydd y Cwnselydd yn adrodd ystadegau'n ymwneud â phresenoldeb wrth Bennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr yn flynyddol. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i fonitro unrhyw dueddiadau sy'n codi yn y sefydliad ac i wneud gwelliannau yn unol ag ymrwymiad y coleg i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

7. Y Gymraeg

7.1 Bydd y polisi hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a bydd gwasanaethau'n cael eu hyrwyddo a'u darparu drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg.

8. Cyfeiriadau

8.1 Fframwaith Moesegol BACP ar gyfer y Proffesiynau Cwnsela (diweddarwyd 1 Gorffennaf 2016)